**Byrddau Arholi:**

- ✓ CBAC www.wjec.co.uk 029 20265000
- ✓ AQA www.aqa.org.uk 0161 9531180
- ✓ Edexcel www.edexcel.com 0845 6180440
- ✓ OCR www.ocr.org.uk 01223 553998
- ✓ http://www.home-education-exams.org.uk/

**Eraill:**

Y Brifysgol Agored
www.openuniversity.co.uk
Ffôn: 0845 4505486

http://www.revisionworld.co.uk/

http://www.s-cool.co.uk/gcse/maths

http://www.gcse.com/maths/

http://www.gcseguide.co.uk/

http://www.muddlepuddle.co.uk/mpblog/

Gall rhieni ddod o hyd i ddolenni eraill ar wefannau'r BBC:
www.bbc.co.uk/learning/index.shtml and
www.bbc.co.uk/schools/index.shtml

# Elective Home Education

Addysg Ddewisol yn y Cartref

# Guidance Booklet

Llyfryn Canllaw



Addysg Ddewisol yn y Cartref yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r addysg a ddarperir gan rieni neu warcheidwaid yn y cartref, yn hytrach na darparu addysg i'w plant trwy eu hanfon i'r ysgol. Mae hyn y wahanol i addysg yn y cartref a ddarperir gan yr awdurdod lleol neu addysg a ddarperir gan awdurdod lleol nad yw wedi ei leoli yn yr ysgol. Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni addysgu eu plant yn y cartref yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol.

Mae Addysgu yn y Cartref yn gyfreithlon ymhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Nid oes raid i chi fod yn athro na meddu ar unrhyw gymwysterau arbenigol. Fel rhiant, mae'n rhaid i chi ddarparu addysg addas ar gyfer eich plentyn yn ystod "oed ysgol gorfodol" (rhwng pump ac un ar bymtheg mlwydd oed.) Gall rhai rhieni/gofalwyr ddewis ymgysylltu â thiwtoriaid preifat neu oedolion eraill i'w cynorthwyo i ddarparu addysg addas, ond nid oes unrhyw ofyniad arnynt i wneud hynny. Os fydd tiwtor yn cael ei gyflogi, dylai rhieni wirio fod ganddynt wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gall addysgu gymryd lle mewn amrywiaeth o leoliadau, nid yn y cartref teuluol yn unig a gall fod mewn amryw o wahanol ffyrdd. Bydd y canllawiau canlynol yn ddefnyddiol i rieni wrth ystyried addysgu eu plant yn y cartref.



**Sut ydw i'n**

## Cysylltiadau Defnyddiol:

- Addysgwyr Cartref Pen-y-bont ar Ogwr
  Rachel Milgate:
  http://bhe.community/
  Ffôn: 07565 415608

  E-bost: emmzr75@gmail.com

- New Foundations-(Caerdydd) Grŵp ADdyyC:
  http://cardiffhomeeducation.co.uk/
  Jayne Palmer 07913955583
  jayne.palmer@newfoundationshe.com

- Zone 7 (Castell Nedd) Grŵp ADdyyC:
  http://www.zoneseven.co.uk/

- Gyrfa Cymru –
  www.careerswales.com

Awdurdod Lleol Merthyr Tudful:

- Rheolwr Cynhwysiant – Swyddog Cyswllt ADdyyC
  Sarah Bowen
  Ffôn: 01685 725082
- Uwch Swyddog Lles Addysg
- Adele Stacey
  Ffôn: 01685 724681
- Swyddog Cymorth i Ysgolion (Derbyniadau)
  Helen Griffiths
  Ffôn: 01685 724640

## Ble allaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch Addysg Ddewisol yn y Cartref?

Cynhwysiant a Chefnogaeth i'r Disgybl
Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 47/2006
Adran 6- Addysg Ddewisol yn y Cartref. I weld y dogfennau'n llawn, ewch i:

http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/pupilssupport/inclusionpupilsupportguidance/section6/lang=en

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y Cwricwlwm Cenedlaethol yn:
www.wales.gov.uk

- Addysg Ddewisol yn y Cartref Cymru http://www.ehew.co.uk/
  Ffôn: 07952435963

- Education Otherwise:
  www.education-otherwise.org
  Ffôn: 0870 730 0074

Os nad yw'ch plentyn erioed wedi mynychu ysgol, yna nid oes angen i chi wneud dim cyn dechrau addysgu o'r cartref. Fodd bynnag, os yw'ch plentyn yn mynychu ysgol, bydd angen i chi ddadgofrestru'n ffurfiol drwy ysgrifennu at y Pennaeth gan nodi'ch bwriad i addysgu'ch plentyn yn y cartref.

## Beth os yw fy mhlentyn yn mynychu ysgol arbennig?

Mae angen "caniatâd" gan yr Awdurdod Lleol (ALl) cyn y medrwch ddadgofrestru plentyn o ysgol arbennig ac ni all caniatâd gael ei wrthod, heb reswm dilys. Dylai rhieni, fodd bynnag, barhau i anfon eu plentyn i'r ysgol nes bod hysbysiad ffurfiol yn cael ei dderbyn fod enw'r plentyn wedi ei hepgor o'r gofrestr.

## Beth os oes gan fy mhlentyn ddatganiad AAA?

"Pan fydd gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig a'i fod yn cael ei addysgu yn y cartref gan rieni, nid yw'r datganiad yn dod i ben. Tra bydd y datganiad yn cael ei gynnal, bydd yn rhaid iddo gael ei adolygu'n flynyddol, yn dilyn y gweithdrefnau a amlinellir ym Mhennod Naw, y Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru."



## Beth yw costau addysgu yn y cartref?

Anogir chi'n gryf i gynllunio o flaen llaw a meddwl yn ddwys am y costau sy'n gysylltiedig ag addysgu plant yn y cartref (yn enwedig yn yr hirdymor pan fyddant, o bosib am sefyll arholiadau cyhoeddus (yn enwedig gan fod costau sefyll arholiadau fel ymgeiswyr preifat yn uchel.).

Nid oes unrhyw gronfeydd ar gael yn uniongyrchol i rieni sy'n penderfynu addysgu eu plant yn y cartref. Nid oes yr un rheidrwydd chwaith ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cefnogaeth ariannol i rieni sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref.

## A all fy mhlentyn sefyll arholiadau TGAU ac arholiadau eraill?

Mae'n bosibl i bobl ifanc sefyll arholiadau fel ymgeiswyr allanol mewn nifer o ganolfannau arholi. Fel rhiant/gwarcheidwaid bydd angen i chi ddod o hyd i ganolfan gofrestredig er mwyn sefyll yr arholiad. Cynghorir chi hefyd i gysylltu â byrddau arholi unigol (gweler y Rhestr Cysylltiadau Defnyddiol) er mwyn trafod y trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat. Bydd rhaid i chi dalu ffioedd cofrestru arholiad, ffioedd y ganolfan arholi a ffioedd am asesu gwaith cwrs gan gorff achrededig. Unwaith bydd disgybl yn un ar bymtheg oed, bydd modd iddo gofrestru i wneud amrywiaeth eang o gyrsiau ar gyfer oedolion, gan gynnwys arholiadau lefel AS/A2. Mae'r Brifysgol Agored yn ffynhonnell dda ar gyfer amrywiaeth o astudiaethau. Gellir dod o hyd i fanylion am gyrff arholi yn y Rhestr Cysylltiadau Defnyddiol.

Ddewisol yn y Cartref. Bydd costau llyfrau, adnoddau papur ac eraill, TGaCh, ymweliadau addysgiadol ac ati. Byddwch hefyd yn gyfrifol am drefnu a chyllido arholiadau cyhoeddus (tebyg i TGAU) os bydd hynny'n berthnasol. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod y rhyngrwyd yn ffynhonnell dda a rhad o addysgu.

- **Cadwch eich opsiynau'n agored:** Bydd anghenion eich plentyn yn newid ar wahanol gyfnodau. Bydd yr Awdurdod Lleol bob amser yn hapus i'ch cynorthwyo i ddod o hyd i le mewn ysgol. Gwnewch y gorau o bob cefnogaeth a gwybodaeth sydd ar gael.
- **Ystyriwch yn ofalus eich penderfyniad i dynnu enw'ch plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol:** Petaech yn newid eich meddwl, ni fyddai'r Awdurdod Lleol yn medru gwarantu y byddai modd i'ch plentyn ddychwelyd i'r un ysgol. Ystyriwch y galw sydd am le yn ysgolion eich ardal. Efallai na fydd lle ar gael mewn ysgolion lleol.
- **Os fyddwch yn cael trafferth neu'n anghydweld gyda'r ysgol, yr athrawon neu'r Pennaeth:** Cysylltwch â'r Bwrdd Llywodraethol. Os ydych yn teimlo fod angen i chi wneud hynny, cysylltwch â'r gwasanaeth Lles Addysg ac ystyriwch ysgolion lleol eraill fel opsiwn. Gweler y Rhestr Cysylltiadau ar gyfer Lles Addysg.

## A allaf newid fy meddwl ynghylch addysg ddewisol yn y cartref?

Gallwch. Os ydych, ar unrhyw adeg yn dymuno i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol yn llawn amser, yna gallwch wneud cais am le mewn ysgol trwy gysylltu â Gwasanaethau Cymorth i Ddysgwyr (gweler y Rhestr Cysylltiadau.) Dylai Rhieni/Gwarcheidwaid fod yn ymwybodol y bydd yr un gweithdrefnau mynediad yn cael eu gweithredu a bydd y cais yn ddibynnol bod lle ar gael mewn grŵp blwyddyn briodol mewn unrhyw ysgol. Yn ychwanegol i hyn, gallai fod yn anodd dod o hyd i le ym Mlwyddyn 10 neu 11 gan fydd ysgolion wedi dechrau ar eu cyrsiau TGAU.

# YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL CYN DEWIS ADDYSG DDEWISOL YN Y CARTREF

- **Meddyliwch yn ddwys am eich penderfyniad:** Mae'n gryn gyfrifoldeb sy'n mynnu ymroddiad, egni ac amser.
- **Ystyriwch sut byddwch yn sicrhau addysg eich plentyn cyn i chi wneud y penderfyniad:** Ymchwiliwch amrywiaeth o feysydd e.e beth arall mae Mathemateg yn ei olygu, heblaw gwaith rhif? Edrychwch ar gyfleusterau chwaraeon lleol ac ati ac ystyriwch drefnu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol gyda phlant eraill.
- **Edrychwch ar y costau posib:** Nid oes unrhyw gyllid ar gael ar gyfer y sawl sy'n penderfynu ar Addysg

## A oes rhaid i mi ddysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu Gwricwlwm arall?

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol i ysgolion gwladol yn unig. Fel addysgwr cartref, eich penderfyniad chi a'ch plentyn yw beth, sut a phryd i astudio.

## Beth yw rôl yr ALI?

Mae'r ALI yn cydnabod hawl pob rhiant i addysgu yn y cartref. Mae'n gyfrifoldeb ar yr Awdurdod i sicrhau fod pob plentyn yn derbyn addysg addas a dyma yw swydd y Swyddog Cyswllt ADdyyC. Mae pob rhiant yn dewis ffyrdd gwahanol i addysgu yn y cartref felly bydd y Swyddog Cyswllt ADdyyC yn edrych ar "raglen" pob plentyn yn unigol.

## Beth yw rôl y rhiant?

Ni all y Swyddog Cyswllt ADdyyC gyfarwyddo dysgu eich plentyn na darparu adnoddau addysgol. Cyfrifoldeb y rhiant yw cynllunio profiadau dysgu'r plentyn.

Er mwyn bodloni'r cyfrifoldeb hwn, gall yr Awdurdod Lleol ofyn i chi ddarparu tystiolaeth fod eich plentyn yn derbyn addysg addas yn y cartref. Gallai hyn gael eu gwneud mewn nifer o ffyrdd.

Er enghraifft, gallai rhieni:

- Dderbyn ymweliad gan y Swyddog Cyswllt ADdyyC gyda neu heb i'r plentyn fod yn bresennol
- Ysgrifennu adroddiad
- Ddarparu enghreifftiau o waith
- Gwrdd â'r Swyddog Cyswllt ADdyyC yn rhywle arall, gyda neu heb i'r plentyn fod yn bresennol
- Gael y ddarpariaeth addysgol wedi ei ardystio gan drydydd parti
- Ddarparu tystiolaeth mewn unrhyw ffurf berthnasol arall

Lle'n bosib, bydd y Swyddog Cyswllt ADdyyC yn trafod unrhyw bryderon gallai fod gennych.

## Beth yw addysgu hyblyg?

Mae hwn yn drefniant rhwng y rhiant a'r ysgol lle mae'r plentyn wedi ei gofrestru yn y dull normal ond yn mynychu'r ysgol yn rhan amser yn unig – weddill yr amser mae'r plentyn yn cael ei addysgu yn y cartref.

Mae 'Addysgu Hyblyg" yn opsiwn cyfreithlon ond bydd angen i chi dderbyn caniatâd y Pennaeth yn yr Ysgol sydd o dan sylw. Gwelir rhai o fanteision ac anfanteision "addysgu hyblyg" ar wefan Home Education UK:

www.home-education.org.uk/flexischool.htm

## A fydd fy mhlentyn yn gymwys i dderbyn cyngor gyrfaol?

Bydd. Cynigir cyngor gyrfaol trwy Gyrfa Cymru ar gyfer pob disgybl sydd rhwng tair ar ddeg a phedair ar bymtheg mlwydd oed. Os ydi'ch plentyn dros tair ar ddeg oed, gallwch gysylltu â Gyrfa Cymru a fydd yn esbonio'r gwahanol ffyrdd y gallant fod o gymorth (gweler y Rhestr Cysylltiadau Defnyddiol.)

## A fydd fy mhlentyn yn gynnwys i dderbyn Gwasanaeth Nyrsio'r Ysgol?

Cynghorwyd yr Awdurdod gan y Gwasanaeth Iechyd na fydd plant sy'n cael eu haddysgu yn ôl trefniadaeth Addysg Ddewisol yn y Cartref yn derbyn mewnbwn gan Wasanaeth Nyrsio'r Ysgol ac y byddant felly, o achos hynny yn colli imiwneiddiadau plentyndod. Mae gan wefan y GIG y wybodaeth ddiweddaraf:

www.nhsdirect.wales.nhs.uk/DoItYourself/vaccinations

Cysylltwch â'ch Doctor Teulu am ragor o gyngor.